



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2010 Rhif 1360 (Cy.115)

2010 No. 1360 (W.115)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

Rheoliadau Cig (Ffioedd
Rheolaethau Swyddogol) (Cymru)
(Diwygio) 2010

The Meat (Official Controls
Charges) (Wales) (Amendment)
Regulations 2010

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/1557 (Cy.152)) ("y Prif Reoliadau") yn dirymu a disodli Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2008 (O.S. 2008/601 (Cy.63)).

The Meat (Official Controls Charges) (Wales) Regulations 2009 (S.I. 2009/1557 (W.152)) ("the Principal Regulations") revoke and replace the Meat (Official Controls Charges) (Wales) Regulations 2008 (S.I. 2008/601 (W.63)).

Mae'r Prif Reoliadau'n darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi o ran Cymru Erthyglau 26 a 27 o Reoliad (EC) Rhif 882/2004 sy'n ymwneud â chyfraith bwyd anifeiliaid a chyfraith bwyd, ac ag iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid, i'r graddau y mae'r darpariaethau'n ei gwneud yn ofynnol neu'n caniatáu i ffioedd gael eu casglu i dalu costau sy'n cael eu peri gan reolaethau swyddogol mewn perthynas â mathau neilltuol o ddofednod; lles anifeiliaid mewn lladd-dai; cigydda anifeiliaid y tu allan i ladd-dai a chigydda dofednod ac anifeiliaid amrywiol eraill a ffermir ar ffermydd. Mae'r Prif Rheoliadau'n gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â hysbysu gweithredwyr am unrhyw ofyniad i dalu ffioedd neu i roi gwybodaeth, ac mewn perthynas â chyfrifo ffi rheolaethau swyddogol.

The Principal Regulations provide for the execution and enforcement in relation to Wales of Articles 26 and 27 of Regulation (EC) No. 882/2004 concerned with feed and food law, animal health and animal welfare, in so far as the provisions require or permit fees to be collected to cover the costs occasioned by official controls in relation to certain types of poultry; animal welfare in slaughterhouses; slaughter of animals outside slaughterhouses and the slaughter of poultry and various other farmed animals on farms. The Principal Regulations make further provision in relation to notification to operators of any requirement to pay fees or supply information, and in relation to calculation of the official controls charge.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau i'r rhaglith, ac i reoliadau 2(1) a 5(2)(b), yn y Prif Reoliadau.

These Regulations make minor amendments to the preamble, and regulations 2(1) and 5(2)(b), of the Principal Regulations.

2010 Rhif 1360 (Cy.115)

2010 No. 1360 (W.115)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

**Rheoliadau Cig (Ffioedd
Rheolaethau Swyddogol) (Cymru)
(Diwygio) 2010**

**The Meat (Official Controls
Charges) (Wales) (Amendment)
Regulations 2010**

Gwnaed 24 Ebrill 2010
*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 27 Ebrill 2010
Yn dod i rym 25 Mai 2010

Made 24 April 2010
*Laid before the National
Assembly for Wales* 27 April 2010
Coming into force 25 May 2010

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1) a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by section 2(2) of, and paragraph 1A of Schedule 2 to, the European Communities Act 1972(1).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion yr adran honno mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd(2).

The Welsh Ministers are designated for the purposes of that section in relation to measures relating to food (including drink) including the primary production of food(2).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Diwygio) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 25 Mai 2010.

Title, application and commencement

1.–(1) The title of these Regulations is The Meat (Official Controls Charges) (Wales) (Amendment) Regulations 2010.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) These Regulations come into force on 25 May 2010.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009(3).

Interpretation

2. In these Regulations, "the Principal Regulations" ("*y Prif Reoliadau*") means The Meat (Official Controls Charges) (Wales) Regulations 2009(3).

(1) 1972 p.68. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (2006 p.51).

(2) O.S. 2005/1971. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(3) O.S. 2009/1557 (Cy.152).

(1) 1972 c.68. Paragraph 1A of Schedule 2 was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (2006 c.51).

(2) S.I. 2005/1971. By virtue of section 162 of, and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006, functions conferred on the National Assembly for Wales by this designation are exercisable by the Welsh Ministers.

(3) S.I. 2009/1557 (W.152).

Diwygio'r Prif Reoliadau

3.–(1) Diwygir y Prif Reoliadau'n unol â pharagraffau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn nhrydydd paragraff y rhaglith–

(a) yn y testun Saesneg, yn lle "to the Secretary of State" rhodder "to the Welsh Ministers";

a

(b) yn y testun Cymraeg yn lle "i'r Ysgrifennydd Gwladol" rhodder "i Weinidogion Cymru".

(3) Yn rheoliad 2(1) (dehongli) yn y testun Cymraeg, yn lle'r diffiniad sy'n dechrau â'r geiriau "mae i "Cyfarwyddeb 2004/41"" ac sy'n gorffen â'r geiriau "yn ôl eu trefn yn Atodlen 1;" rhodder

"mae i "Cyfarwyddeb 2004/41" ("*Directive 2004/41*")", "Rheoliad 178/2002" ("*Regulation 178/2002*")", "Rheoliad 852/2004" ("*Regulation 852/2004*")", "Rheoliad 853/2004" ("*Regulation 853/2004*")", "Rheoliad 854/2004" ("*Regulation 854/2004*")", "Rheoliad 882/2004" ("*Regulation 882/2004*")", "Rheoliad 1688/2005" ("*Regulation 1688/2005*")", "Rheoliad 2073/2005" ("*Regulation 2073/2005*")", "Rheoliad 2074/2005" ("*Regulation 2074/2005*")", "Rheoliad 2075/2005" ("*Regulation 2075/2005*") a "Rheoliad 2076/2005" ("*Regulation 2076/2005*") yr ystyron a roddir iddynt yn eu trefn yn Atodlen 1;"

(4) Yn rheoliad 5(2)(b) (gwybodaeth)–

(a) yn y testun Saesneg, y ddau dro y ceir y gair "secretary" rhodder yn ei le y gair "Secretary";

a

(b) yn y testun Cymraeg, y ddau dro y ceir y geiriau "ysgrifennydd neu ysgrifenyddes" rhodder yn eu lle y gair "Ysgrifennydd".

Amendment of the Principal Regulations

3.–(1) The Principal Regulations are amended in accordance with the following paragraphs of this regulation.

(2) In the third paragraph of the preamble–

(a) in the English text for "to the Secretary of State" substitute "to the Welsh Ministers";

and

(b) in the Welsh text for "i'r Ysgrifennydd Gwladol" substitute "i Weinidogion Cymru".

(3) In regulation 2(1) (interpretation) in the Welsh text, for the definition which begins "mae i "Cyfarwyddeb 2004/41"" and ends with "yn ôl eu trefn yn Atodlen 1;" substitute

"mae i "Cyfarwyddeb 2004/41" ("*Directive 2004/41*")", "Rheoliad 178/2002" ("*Regulation 178/2002*")", "Rheoliad 852/2004" ("*Regulation 852/2004*")", "Rheoliad 853/2004" ("*Regulation 853/2004*")", "Rheoliad 854/2004" ("*Regulation 854/2004*")", "Rheoliad 882/2004" ("*Regulation 882/2004*")", "Rheoliad 1688/2005" ("*Regulation 1688/2005*")", "Rheoliad 2073/2005" ("*Regulation 2073/2005*")", "Rheoliad 2074/2005" ("*Regulation 2074/2005*")", "Rheoliad 2075/2005" ("*Regulation 2075/2005*") a "Rheoliad 2076/2005" ("*Regulation 2076/2005*") yr ystyron a roddir iddynt yn eu trefn yn Atodlen 1;"

(4) In regulation 5(2)(b) (information)–

(a) in the English text in both places where the word "secretary" occurs substitute "Secretary"; and

(b) in the Welsh text in both places where they occur for the words "ysgrifennydd neu ysgrifenyddes" substitute "Ysgrifennydd".

Gwenda Thomas

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

24 Ebrill 2010

© Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Deputy Minister for Social Services under authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

24 April 2010

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2010 Rhif 1360 (Cy.115)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Cig (Ffioedd
Rheolaethau Swyddogol) (Cymru)
(Diwygio) 2010

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2010 No. 1360 (W.115)

FOOD, WALES

The Meat (Official Controls
Charges) (Wales) (Amendment)
Regulations 2010